Gweithdrefnau Gêm Cashword Multiplier

Cyflwyniad
Dyma'r Gweithdrefnau Gêm ar gyfer CASHWORD MULTIPLIER (y "Gêm"). Pan gaiff y Gêm ei chwarae, mae'r Rheolau ar gyfer Gemau Cardiau Crafu (y "Rheolau") a'r Gweithdrefnau hyn yn gymwys. Gellir gweld y Rheolau mewn Safleoedd Manwerthu ac ar wefan y Loteri Genedlaethol yn **national-lottery.co.uk**.

Bydd gan unrhyw air neu ymadrodd yn y Gweithdrefnau hyn sydd ag ystyr penodol yr un ystyr â'r un a roddir iddo yn y Gweithdrefnau hyn neu yn y Rheolau (oni fydd y cyd-destun yn nodi'n glir fel arall).

Manylion y Gêm
Enw'r Gêm: **"CASHWORD MULTIPLIER"**
Rhif y Gêm: **"Gêm 1242"**
Pris Manwerthu: **£3 am bob Cerdyn Crafu**

Ceir 1 siawns mewn 3.27 o ennill Gwobr ar bob Cerdyn Crafu yn y Gêm hon. Argraffwyd 24,833,280 o Gardiau Crafu ar gyfer y Gêm hon i gychwyn.

Sut i chwarae ac ennill
Mae'r Ardal Chwarae yn cynnwys pedair adran – 'YOUR LETTERS' ("Adran Eich Llythrennau"), 'WORD GRID' (yr "Adran Grid Geiriau"), 'PRIZE TABLE' (y "Tabl Gwobrau") a 'MULTIPLIER BOX' (y "Blwch Lluosydd").

I chwarae, rhaid i Chi grafu'r haen gyfan oddi ar Adran Eich Llythrennau i ddatgelu 18 o Symbolau Chwarae ("Eich Llythrennau"). Yna, dylech ond crafu'r llythrennau hynny yn yr Adran Grid Geiriau sy'n cyfateb i'ch Llythrennau a ddatgelir o dan yr haen yn Adran Eich Llythrennau.

Os caiff gofynion y Rheolau a'r Gweithdrefnau hyn eu bodloni, byddwch yn ennill Gwobr os byddwch yn datgelu tri neu fwy o eiriau cyflawn o dan haen yr Adran Grid Geiriau (y "Geiriau Buddugol"), drwy grafu haen y llythrennau yn yr Adran Grid Geiriau sy'n cyfateb i'ch Llythrennau. Y Wobr fydd y Wobr a ddangosir yn y Tabl Gwobrau ar gyfer y nifer cyfatebol o Eiriau Buddugol a ddatgelir o dan haen yr Adran Grid Geiriau.

Ni chaiff geiriau o fewn geiriau (er enghraifft TO, TON, ONE yn y gair STONE) eu hystyried yn eiriau 'cyflawn'. Rhaid i Symbolau Chwarae sydd wedi'u cyfuno i ffurfio gair 'cyflawn' ymddangos mewn cyfres lorweddol (o'r chwith i'r dde) ddi-dor neu gyfres fertigol (o'r top i'r gwaelod) ddi-dor o lythrennau o fewn Adran y Grid Geiriau.

Ceir enghreifftiau o eiriau 'cyflawn' derbyniol isod:

ENGHREIFFTIAU				
				L
S	T	O	N	E
P				T
Y				

Symbolau Chwarae ar gyfer Adran Eich Llythrennau

Symbolau Chwarae	A	B	C	D	E	F	G	H	I
Symbolau Chwarae	J	K	L	M	N	O	P	Q	R
Symbolau Chwarae	S	T	U	V	W	X	Y	Z	

Bydd 18 o Symbolau Chwarae yn ymddangos o dan haen adran Eich Llythrennau. Dim ond y Symbolau Chwarae y gellir eu defnyddio i chwarae'r Gêm.

18+

GP GM1242
Camelot UK Lotteries Limited, PO Box 287, Watford WD18 9TT.
Llinell y Loteri Genedlaethol 0333 234 5050. Codir taliadau fel uchod am alwadau.

THE NATIONAL LOTTERY

YOUR NUMBERS MAKE AMAZING HAPPEN

Symbolau Chwarae ar gyfer yr Adran Grid Geiriau

Symbolau Chwarae	A	B	C	D	E	F	G	H	I
Symbolau Chwarae	J	K	L	M	N	O	P	Q	R
Symbolau Chwarae	S	T	U	V	W	X	Y	Z	

Os byddwch yn ennill Gwobr drwy ddatgelu tri neu fwy o eiriau cyflawn o dan haen Adran Grid Geiriau dylech grafu haen gyfan y Blwch Lluosydd.

Os byddwch yn datgelu Symbol Chwarae '1X' gyda'i Bennawd Chwarae cyfatebol o dan haen y Blwch Lluosydd, bydd eich Gwobr yn gyfwerth â gwerth y Wobr a ddangosir ar gyfer y nifer o Eiriau Buddugol, fel y'i dangosir yn y Tabl Gwobrau.

Os byddwch yn datgelu Symbol Chwarae '2X' gyda'i Bennawd Chwarae cyfatebol o dan haen y Blwch Lluosydd, bydd eich Gwobr yn gyfwerth â dwywaith gwerth y Wobr a ddangosir ar gyfer y nifer o Eiriau Buddugol, fel y'i dangosir yn y Tabl Gwobrau.

Os byddwch yn datgelu Symbol Chwarae '3X' gyda'i Bennawd Chwarae cyfatebol o dan haen y Blwch Lluosydd, bydd eich Gwobr yn gyfwerth â theirgwaith gwerth y Wobr a ddangosir ar gyfer y nifer o Eiriau Buddugol, fel y'i dangosir yn y Tabl Gwobrau.

Symbolau Chwarae ar gyfer y Blwch Lluosydd

Symbolau Chwarae	1X	2X	3X
Penawdau Chwarae	**1TIMES**	**2TIMES**	**3TIMES**

Bydd un Symbol Chwarae Lluosydd gyda'i Bennawd Chwarae Lluosydd cyfatebol yn ymddangos o dan haen y Blwch Lluosydd. Dim ond Symbol Chwarae Lluosydd a'i Bennawd Chwarae Lluosydd cyfatebol y gellir eu defnyddio i gadarnhau â pha rif y dylid lluosi'r Wobr, lle y bo'n berthnasol.

Y Gwobrau, Nifer y Gwobrau a Thebygolrwydd

Y Gwobrau	Nifer y Gwobrau Ar Ddechrau'r Gêm	Tebygolrwydd Bras (1 Mewn :) Ar Ddechrau'r Gêm
£3 3 Gair	2,897,018	9
£5 4 Gair	1,986,734	13
£6 5 Gair	248,308	101
£6 3 Gair WEDI'U DYBLU	413,888	60
£9 3 Gair WEDI'U TREBLU	413,762	61
£10 6 Gair	414,014	60
£10 4 Gair WEDI'U DYBLU	579,409	43
£12 5 Gair WEDI'U DYBLU	165,602	150
£15 4 Gair WEDI'U TREBLU	82,837	300
£18 5 Gair WEDI'U TREBLU	82,706	301
£20 7 Gair	82,765	301
£20 6 Gair WEDI'U DYBLU	165,580	150
£25 8 Gair	29,584	840
£30 6 Gair WEDI'U TREBLU	9,089	2,733
£40 7 Gair WEDI'U DYBLU	6,691	3,712
£50 8 Gair WEDI'U DYBLU	4,528	5,485

18+

GP GM1242
Camelot UK Lotteries Limited, PO Box 287, Watford WD18 9TT.
Llinell y Loteri Genedlaethol 0333 234 5050. Codir taliadau fel uchod am alwadau.

THE NATIONAL LOTTERY

YOUR NUMBERS MAKE AMAZING HAPPEN

Y Gwobrau		Nifer y Gwobrau Ar Ddechrau'r Gêm	Tebygolrwydd Bras (1 Mewn :) Ar Ddechrau'r Gêm
£60	7 Gair WEDI'U TREBLU	3,924	6,329
£75	8 Gair WEDI'U TREBLU	3,549	6,998
£100	9 Gair	1,580	15,718
£200	9 Gair WEDI'U DYBLU	584	42,523
£300	9 Gair WEDI'U TREBLU	590	42,091
£1,000	10 Gair	80	310,416
£10,000	11 Gair	8	3,104,160
£300,000	12 Gair	5	4,966,656

Wrth i'r Gwobrau gael eu hennill, bydd nifer y Gwobrau sydd ar gael ym mhob categori yn lleihau yn unol â hynny. Ar ôl i'r Wobr uchaf olaf gael ei dilysu, caniateir i Fanwerthwyr barhau i werthu'r Cardiau Crafu hynny sydd eisoes wedi'u hactifadu i'w gwerthu a chaiff unrhyw Gardiau Crafu nad ydynt wedi'u hactifadu eu tynnu'n ôl. Er mwyn dod o hyd i'r wybodaeth ddiweddaraf am y Gwobrau, ewch i **national-lottery.co.uk** neu ffoniwch Linell y Loteri Genedlaethol ar **0333 234 5050**. Ni fydd galwadau yn costio mwy na galwadau i rifau 01 a 02. Os yw eich tariff ffôn yn cynnwys galwadau i linellau tir, caiff galwadau i rifau 03 eu cynnwys ar yr un sail.

Gwerth Gwobrau yn Y Gêm

Mae cyfanswm gwerth Gwobrau'r Cardiau Crafu a argraffwyd ar gyfer y Gêm yn cynrychioli 67.20% o gyfanswm gwerth enwol y Cardiau Crafu. £50,061,100 yw cyfanswm gwerth Gwobrau'r Cardiau Crafu a argraffwyd ar gyfer y Gêm i gychwyn.

Mae nifer y Gwobrau y gellir eu hennill gan y Cardiau Crafu a argraffwyd ar gyfer y Gêm i gychwyn yn cyfateb i nifer y Cardiau Crafu a gofnodwyd ar System Gyfrifiadurol Camelot ac yr hysbyswyd y Comisiwn Hapchwarae amdanynt yn ffurfiol cyn gwerthu unrhyw Gardiau Crafu. Ni chaiff y manylion yn y Gweithdrefnau hyn eu diwygio er mwyn ystyried unrhyw Gardiau Crafu a werthir neu a gollir yn y dyfodol, na Chardiau Crafu a gaiff eu tynnu'n ôl yn y dyfodol (lle y caiff y Cardiau Crafu hynny eu tynnu'n ôl gan Camelot heb yn wybod a ydynt yn Gardiau Crafu â Gwobrau).

Cyffredinol

Os bydd unrhyw wrthdaro rhwng y Gweithdrefnau hyn ac unrhyw wybodaeth arall a gyhoeddir gan Camelot o ran y Gêm hon, y Gweithdrefnau hyn fydd drechaf (ac eithrio os bydd unrhyw Reolau Gêm Benodol yn gymwys i'r Gêm hon. Yn yr achos hwnnw, y Rheolau fydd drechaf).

18+

GP GM1242
Camelot UK Lotteries Limited, PO Box 287, Watford WD18 9TT.
Llinell y Loteri Genedlaethol 0333 234 5050. Codir taliadau fel uchod am alwadau.

THE NATIONAL LOTTERY

YOUR NUMBERS MAKE AMAZING HAPPEN